# Sefydlu a datgymalu gweithle gwisgoedd dros dro

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i sefydlu man penodol ar gyfer gwisgoedd wrth ffilmio ar leoliad, defnyddio'r man drwy gydol y cynhyrchiad ar gyfer gwaith yn ymwneud â'r gwisgoedd a datgymalu'r man ar ddiwedd y cynhyrchiad. Gallai ymwneud ag asesu a dewis man addas, creu gweithle gweithredol, derbyn gwisgoedd wedi'u danfon a'u storio'n briodol ynghyd â phacio eitemau i'w cludo.

Mae'n debyg y byddai'r safon hon yn berthnasol i oruchwylwyr gwisgoedd, rheolwyr gwisgoedd a chynorthwywyr gwisgoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu gofynion gwisgoedd y cynhyrchiad ac amcangyfrif y cyfleusterau angenrheidiol
2. asesu'r mannau sydd ar gael a dewis y man mwyaf addas gan ddwyn i ystyriaeth y lleoliad, y mynediad a'r adnoddau
3. ystyried y materion ynghlwm â diogelwch, cyfrinachedd a risgiau
4. derbyn caniatâd i ddefnyddio'r gweithle dewisol
5. adnabod y cyfarpar a'r offer angenrheidiol i gynnal a chadw gwisgoedd
6. gweithio gan gadw at gyllideb y cynhyrchiad
7. rhoi gwybod i'r tîm cynhyrchu am union safle'r gweithle dewisol
8. cydosod a threfnu cyfarpar yn y man dewisol gan ddwyn i ystyriaeth y rhwystrau, y mynediad, y peryglon a'r amodau diogelwch
9. cyd-drefnu gwaith cynnal a chadw ar y gwisgoedd yn y gweithle fel glanhau, trwsio, heneiddio a rhoi ôl traul
10. rheoli a chynnal y gweithle
11. trefnu cludiant addas ar gyfer gwisgoedd, offer a chyfarpar
12. datgymalu'r gweithle a pharatoi'r offer, y gwisgoedd a'r cyfarpar yn barod i'w cludo
13. cydymffurfio gyda rheolau cyfrinachedd y cynhyrchiad
14. cyfathrebu'n effeithiol gyda staff y cynhyrchiad ac adrannau neu unigolion perthnasol eraill
15. cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau iechyd a diogelwch bob amser

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion ac amserlen y cynhyrchiad
2. lleoliadau'r set ffilmio a'r golygfeydd
3. y gyllideb a'r graddfeydd amser gallwch fanteisio arnyn nhw
4. y man / gofod sydd ar gael
5. y risgiau ynghlwm â diogelwch a chyfrinachedd a sut i sicrhau bod cyn lleied â phosib
6. sut i adnabod a chyfathrebu gydag adrannau eraill
7. nifer ac ansawdd y gwisgoedd gofynnol a lle i ganfod gwybodaeth am y cynhyrchiad
8. y drefn saethu a'r raddfa amser sy'n gysylltiedig â gofynion y gwisgoedd a'r amser gwisgo
9. y cyfarpar angenrheidiol i gyflawni tasgau'n ymwneud â'r gwisgoedd
10. sut i drefnu, sefydlu, lleoli a gosod cyfarpar
11. gofynion paratoi cyn cludo'r gwisgoedd a'r cyfarpar
12. sut i ofalu am a chynnal a chadw gwisgoedd
13. amseriadau yn ymwneud â datgymalu'r gweithle
14. sut a lle i gael gwared ar wastraff
15. sut i gaffael a threfnu cludiant ar gyfer cyfarpar a'r gwisgoedd
16. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ynghlwm â thrin a storio deunyddiau peryglus
17. rheolau cyfrinachedd y cynhyrchiad
18. y protocol cyfathrebu gyda staff y cynhyrchiad ac adrannau neu unigolion perthnasol eraill
19. cyfrifoldebau statudol ynghlwm â'r deddfwriaethau a'r rheoliadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol

SKSQ21

Sefydlu a datgymalu gweithle gwisgoedd dros dro

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSQ29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â’r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Gwisgoedd |
| **Geiriau Allweddol** | Gwisg; wardrob; datgymalu; sefydlu; gweithle; cynnal a chadw |